# Cyngor Cymuned Glantwymyn

**Nôs Iau, 25 Chwefror 2016.**

**Presennol:-** Cynghorwyr Gwenfair E Davies, Dafydd Evans, Aled O Griffiths, Paul Hughes, D Gwyn Jones, Gareth W Jones, Deryck Lewis, Gwen Lloyd, S Gareth Owen, Geraint Wigley, Huw M Williams, a'r Cynghorydd Sir, Gwilym P Fychan. Hefyd y Clerc, Mr Rab Jones.

**Ymddiheuriadau:-** Cynghorwyr Siôn Ifans, John Pughe Jones, William N Owen, Ann Williams.

**16.9. Cofnodion cyfarfod 28 Ionawr 2016.**
Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod uchod a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

**16.10. Materion yn codi o'r cofnodion.**
101.1 "Defibrillator". Eglurodd y Clerc ei fod wedi bod mewn cysylltiad gyda Mr Glan Davies o Calonau Cymru. Cyngor Mr Davies oedd i gwasgu ymlaen gyda unrhyw cais cyn gynted ac sydd yn bosib. Cytunwyd trafod cais Neuadd Cwmllinau yng Nghyfarfod y Melinau Gwynt.
32.1 Grantiau Llywodraeth Cymru Wledig. Cadarnhaodd y Clerc fod Cyng Siôn Ifans wedi cyflwyno cais i Gyngor Sir Powys.
16.8.5 Ffens ger y Ty Gorsaf yng Nglantwymyn. Cadarnhaodd y Clerc ei fod wedi dod a'r sefyllfa i sylw y cwmni rheilffordd a fod y ffens wedi cael eu ail godi dros dro. Cytunwyd cadw golwg ar y sefyllfa.
16.8.6 Bagiau sbwriel ar y ffordd gefn ger Abergwibedyn. Cadarnhaodd y Clerc fod gweithwyr y Cyngor Sir wedi clirio'r sbwriel.
16.8.7 Y Cod Ymddygiad. Mynegodd nifer o'r Cynghorwyr eu bod erioed wedi derbyn copi o'r llyfryn Canllaw y Cynghorydd Da 2012 yn cynnwys y Cod Ymddygiad. Cytunwyd archebu copiau ychwanegol o'r Canllaw ac edrych i fewn i'r posibilrwydd o cynnal hyfforddiant i Cynghorwyr yn ardal Dyffryn Dyfi.

**16.11. Cynllunio.**
P/2016/0061. Estyniad i ty Minafon, Pantperthog, Machynlleth. Cytunwyd cefnogi.

**16.12. Eitemau i'w talu.**
12.1 Aelodaeth Un Llais Cymru 2016/17. Cytyunwyd taliad o £186-00.
12.2 Costau'r Clerc. Cytunwyd taliad o £75-10.

**16.13. Adroddiadau'r Cynrychiolwyr.**
13.1 Iechyd. Eglurodd Cyng Gwilym Fychan ei fod wedi mynychu cyfardod y Drenewydd i thrafod gofal hen bobl o fewn y cymuned. Mae cyfarfod arall ym Machynlleth ar 3 Mawrth 2016.
13.2 Cyllideb y Cyngor Sir. Eglurodd Cyng Gwilym Fychan ei fod yn disgwyl i'r Cyngor Sir cytuno codiad o 4.25% ar y treth cyngor ond nid yw'r manylion ar gael eto.
13.3 Cronfa Egni Cymynedol. Eglurodd y Clerc ei fod ef a Cyng Gwen Lloyd wedi mynychu cyfarfod yn Y Plas, Machynlleth gyda Mr Andy Rowland a cynrychiolwyr y Cronfa Egni Cymunedol yn cydfod o'r Melinau Gwynt Cymunedol uwchben Pantperthog. Cytunwyd dynodi Cyng Gwen Lloyd fel cynrychiolydd Cyngor Cymuned Glantwymyn i'r Gronfa ac hefyd ddylid ymestyn gwahoddiad i Gyngor Cymuned Corris cael cynrychiolydd ar y Gronfa.

Ymunodd Cyng Aled O Griffiths a'r cyfarfod.

**16.14. Gohebiaeth.**
14.1 E-bost gan Mr Peter Morris, Cyngor Sir Powys ynglyn Cynllyn Datblygu Lleol Powys 2015.
14.2 E-bost gan Mr Peter Hughes ynlyn cynllun NYTH i helpu pobl cadw yn gynnes yn y gaeaf.
14.3 E-bost gan Mrs Sue Simpson, Cyngor Sir Powys, gyda manylion cymorth i ystyried ceisiadau cynllunio yn electonig.

14.4 E-bost gan Mr Lyn Cadwallader, Un Llais Cymru ynglyn ymateb ULC i'r Fesur Drafft Llywodrath Leol (Cymru).
14.5 E-bost gan Mr Nick Bennet, Ombwdsmon, ynglyn canllaw Egwyddorion Gweinyddiaeth Dda a Rheoli Cofnodion yn Dda.
14.6 E-bost gan Mr Phillip Staiw, Cyngor Sir Powys, yn ymestyn gwahoddiad i cyfarfod cyhoeddus ar 3 Mawrth 2016 yn Ysgol Bro Hyddgen Machynlleth i thrafod dyfodol Gwasanaethau Iechyd a Gofal Oedolion yn Ardal Machynlleth.
14.7 Llythr gan Mr Neil Jenkins, Swyddfa'r Post, ynglyn a cynllyn Gwasanaeth Post Symudol yng Nghemaes a Chwmlline. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd cefnogi y gwasanaeth newydd.

**16.15. Unrhyw fater arall.**
15.1. Eglurodd Cyng Deryck Lewis fod problemau yn parhau gyda'r safle Gweithdy Dwr yng Nghwmlline. Mae swyddogion Dwr Cymru wedi bod allan ond does dim byd wedi digwydd. Cytunwyd ysgrifennu i Adran Iechyd y Cyngor Sir a Cyfoeth Naturiol Cymru ynglyn y problemau.
15.2. Eglurodd Cyng Paul Hughes fod sylw i'r coed ar ochr y ffordd ger troad Llanwrin yn ogystal a'r problemau uwchben Poesnant.
15.3 Eglurodd Cyng Aled O Griffiths fod yna pryderon mawr yn parhau gyda'r cynllyn i newid yr oed i blant cychwyn yn yr Ysgol Gynradd.
15.4 Eglurodd Cyng Aled O Griffiths ei fod wedi codi pryderon am sbwriel ar ochr y ffordd ger Dolcorsllwyn gyda'r Clerc. Cadarnhaodd y Clerc ei fod wedi dod a'r problemau i sylw swyddogion Cyngor Sir Powys a fod y sbwriel wedi cael ei clirio.

**Cynhelir y cyfarfod nesaf ar Nos Iau, 31 Mawrth 2016.**